# Gwaelod y Garth

Cylchlythyr Wythnosol / Weekly Newsletter

**09.05.2025**




## Gair gan y Pennaeth ~ Headteacher's Greeting

Hyfryd oedd croesawu teuluoedd **Dosbarth 1C** i'r ysgol heddiw er mwyn gweld y disgyblion yn cynnal gwasanaeth dosbarth. Am berfformiad egnïol a hyderus gyda phawb – yn blant ac yn oedolion – yn mwynhau'r canu a'r llefaru. Bu dysgu gwych am fisoedd a thymhorau'r flwyddyn gan bawb yn y broses hefyd. Llongyfarchiadau mawr i bawb a diolch i'r staff am eu gwaith paratoi.

Wedi cynnal Ffair Fenter yr wythnos ddiwetha', bu disgyblion **Blwyddyn 6** wrthi yn cyfri elw'r Ffair. Gwnaed elw anghoel **£870.** Llongyfarchiadau mawr i chi gyd!

Bydd rhai ohonoch yn ymwybodol bod **Dosbarth 5C** wedi gweithio ar brosiect *Cân y Teimladau* gyda Mei Gwynedd dros y misoedd diwethaf – wedi barddoni, cyfansoddi, perfformio a bellach hefyd wedi gosod dawns i'r gân. Ewch draw i gyfrif Instagram neu wefan yr ysgol i'w weld – mae e werth ei weld! Dyma'r linc.

Trist iawn yw cyhoeddi y bydd Mrs Golding yn ymddeol o swyddfa'r ysgol ar ddiwedd tymor yr Haf. Mae gwaith Mrs Golding yn yr ysgol dros sawl blwyddyn wedi bod yn amhrisiadwy ac fe fydd colled enfawr ar ei hôl. Rydym felly yn chwilio am Swyddog Gweinyddol newydd i'r ysgol i gychwyn Mis Medi – rôl allweddol a phwysig iawn i holl gymuned yr ysgol. Byddwn yn rhannu'r manylion gyda chi yn fuan iawn gan obeithio eich bod yn ymwybodol o rywrai allai fod â diddordeb ymgeisio. Rhannwch y neges ymhell ag agos!

* * * * * *

We enjoyed welcoming families from **Dosbarth 1C** to school today to see the pupils's class assembly. What an energetic and confident performance! All those present certainly enjoyed every aspect of the performance. The pupils also learned a huge amount about the months and seasons of the year in the process. Congratulations to all and *diolch* you to the staff for their work.

After holding an Enterprise Fair last week, **Year 6** pupils since counted their profits. The raised incredible **£870.** *Llongyfarchiadau mawr i chi gyd!*

Some of you will be aware that **Dosbarth 5C** have been working on the *Cân y Teimladau* (Feelings Song) project with Mei Gwynedd over recent months –writing, composing and performing. They have now also composed a dance to accompany their song. Please go to our Instagram account or website – it's worth seeing! Here's the link.

I am saddened to announce that Mrs Golding will be retiring from the school office at the end of the Summer term. Mrs Golding's work at the school, over many years, has been invaluable and she will be sorely missed professionally and personally. We are looking for a new Admin Officer for the school to start this September – a critical and important role for our whole school community. We will be sharing the post details with you soon, hoping that you are aware of someone who may be interested in applying. Please feel free to share the message far and wide!

## Dyddiadau Pwysig
## *Important Dates*

**13.05.25 Mawrth/ Tuesday**
Diwrnod Lles
*Well-being day*
(Gwisg Add Gorff i bawb)
*(PE Kit for all)*

**22.05.25 Iau / Thursday**
Diwrnod ben i Waered
*Upside down day*

**23.05.25 Gwener / Friday**
Diwrnod HMS (dim ysgol)
INSET Day (no school)

**26.05.25 – 30.05.25**
Gwyliau Hanner Tymor
Half Term Holiday

**4.06.25 Mercher /Wednesday**
Diwrnod Mabolgampau
(MET Caerdydd 10:00 – 12:00)
Sports Day
(Cardiff MET, 10:00 – 12:00)

**20.06.25 Gwener / Friday**
Gwasanaeth Dosbarth 1E
1E Class Assembly

**04.07.25 Gwener / Friday**
Gwasanaeth Derbyn
Reception Class Assembly

Cofiwch am ein calendr byw ar dudalen cartref y wefan.

*Our live calendar is on our school website's homepage.*

## C.Rh.A / *P.T.A*

Cofiwch am…. *Don't forget….*

**22/05/25:** Diwrnod ben i waered / *Upside down day*

**27/06/25:** Ffair Haf / *Summer Fayre*

**Diolch** i'r GRhA am eich gwaith caled!
*A big **diolch** to our fantastic PTA!*




## Diwrnod Lles: Dydd Mawrth 13.05.25

Gan fod wythnos nesa yn *Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl*, byddwn yn cynnal ein **Diwrnod Lles** blynyddol ar Ddydd Mawrth. Er mwyn gallu manteisio ar bob gweithgareddau, gofynnwn i bob plentyn wisgo gwisg addysg gorfforol yr ysgol ar y diwrnod hwn.

## Well-being Day: Tuesday 13.05.25

As next week is *Mental Health Awareness Week*, we will be holding our annual **Wellbeing Day** on Tuesday, as is now customary for us here at Gwaelod y Garth. In order to be able to take advantage of all activities, we ask all children to wear the school's PE uniform on this day.



Dyddiadau Bws Beics Tymor yr Haf
Summer Term Bike Bus Dates

Croeso cynnes i aelodau newydd!
*New members always welcome!*

16.5.25

6.6.25
20.6.25
4.7.25
11.7.25






Gwasanaeth Dosbarth 1C
1C Class Assembly








# Cân Teimladau
## Our Feelings Song
## Dosbarth 5C

Dyma'r linc.












## Cymro / Cymraes yr Wythnos

## Welsh learners of the week







## Dysgwyr yr Wythnos

## Learners of the week




YSGOL GYNRADD GWAELOD-Y-GARTH PRIMARY SCHOOL




